## Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud â gweithredu fel y prif bwynt cyswllt rhwng aelodau'r criw cynhyrchu, y swyddfa gynhyrchu a'r cast.

Mae'n ymwneud â llunio taflenni galwadau dyddiol, dewis ecstras, cyfathrebu gyda'r adrannau gwisgoedd a cholur i drefnu amseroedd galw a gofalu fod y perfformwyr wedi derbyn eu hamseroedd galwadau ar gyfer y diwrnod canlynol.

Mae'r Safon hon yn arbennig ar gyfer 2il Gyfarwyddwyr Cynorthwyol, Cydlynwyr Cynhyrchu ac Ysgrifenyddion Cynyrchiadau.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. ymgynghori gydag adrannau priodol er mwyn paratoi, llunio a diwygio taflenni galwadau dyddiol
2. cyfathrebu gyda'r swyddfa gynhyrchu ar amseroedd priodol er mwyn cyflwyno taflenni galwadau
3. cadarnhau bod trefniadau priodol wedi'u gwneud ar gyfer teithio a llety i berfformwyr lle nad ydyn nhw'n lleol
4. pennu gofynion diwrnod canlynol yr adrannau gwisgoedd, colur ac arlwyo ynghyd ag unrhyw adrannau perthnasol eraill a defnyddio'r wybodaeth hon i benderfynu ar yr amseroedd galwadau ar gyfer y diwrnod canlynol
5. rhannu'r amseroedd galwadau dyddiol gyda'r holl bobl ac adrannau priodol
6. rhoi gwybod i'r cast a chriw mai chi ydy'r prif bwynt cyswllt yn unol â gofynion y cynhyrchiad
7. cynnig gwybodaeth eglur a chywir i gydweithwyr ynghylch eu disgwyliadau o ran cyflwyno gwybodaeth ar gyfer amserlenni a thaflenni galwadau
8. rhoi gwybod i'r criw a chast am unrhyw newidiadau ar fyrder i daflenni galwadau ar ddiwedd y diwrnod ffilmio heb oedi
9. gofalu eich bod yn cyfathrebu'n barhaus gyda'r swyddfa gynhyrchu'n unol â gofynion y cynhyrchiad
10. trin a thrafod gyda'r cast a chriw unrhyw dasgau sydd tu hwnt i'w dyletswyddau arferol yn unol â gofynion y cynhyrchiad
11. cyd-drefnu symudiad cyson cyfranwyr drwy'r adrannau gofynnol yn unol â gofynion y cynhyrchiad
12. gofalu bod cyfranwyr yn barod pan fo'u hangen o ystyried y daflen alwad ac anghenion y set
13. paratoi a rhoi cynlluniau ar wait her mwyn gofalu caiff y targedau o ran anghenion amserlennu hirdymor eu cyflawni

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i gynnig cefnogaeth i'r cast, criw a chyfranwyr gan gynnwys hebryngwyr a thiwtoriaid lle'n briodol
2. sut i ymdrin yn effeithiol gyda chast, criw a chyfranwyr o wahanol anianodau
3. sut i ddewis a defnyddio cyfarpar cynhyrchu priodol
4. sut i ddarllen nodiadau cynghori ar gastio yn ymwneud â'r amserlen
5. sut i ddewis a threfnu ecstras i ymddangos yn y cefndir
6. gofynion yr adrannau gwisgoedd, colur, celf a chyfleusterau yn ymwneud â'r cast
7. gofynion y cynhyrchiad ar y set
8. achosion tebygol dros oedi ac ail-drefnu
9. pwysigrwydd rhoi gwybod i'r swyddfa gynhyrchu am unrhyw newidiadau i'r daflen alwad a chynnydd ar y set, gan gynnwys galwadau prydlon pan fo'r diwrnod ffilmio wedi dod i ben
10. sut i gyd-drefnu symudiadau perfformwyr a pherfformwyr cefnogol ar y set er mwyn gofalu eu bod yn barod ar yr amser gofynnol
11. pa weithgareddau sydd angen eu cyd-drefnu'n ddyddiol ac yn yr hirdymor er mwyn gofalu caiff y cynhyrchiad ei gynnal yn effeithiol
12. sut i drin a thrafod gyda'r cast a chriw mewn ffordd sensitif

Cyd-drefnu logisteg ar gyfer y cast a chriw

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Maw 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ScreenSkills |
| **RCU gwreiddiol** | SKSP23 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Celfyddydau, Cyfryngau a Chyhoeddi, Rheolwyr Cynhyrchu, Cydlynydd Cynhyrchu |
| **Cyfres/Set** | Cynhyrchu (Ffilm a Theledu) |
| **Geiriau Allweddol** | Teledu, Ffilm, Cynhyrchiad, Cast, Criw |